

Crynodeb Gwirio Ansawdd Ysbyty Gwynedd (Yr Adran Achosion Brys)

Dyddiad y gweithgarwch: 21-25
Chwefror 2022

Dyddiad cyhoeddi: 14 Ebrill 2022



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Crynodeb Gwirio Ansawdd

Ein dull gweithredu

Ymgwymerodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) â gwiriad ansawdd o bell o'r Adran Achosion Brys Ysbyty Gwynedd fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae Ysbyty Gwynedd yn gweithredu o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac wedi ei leoli ym Mangor, Gwynedd.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull newydd wedi'i deilwra ar gyfer gwaith sicrwydd ac maent yn un o nifer o ffyrdd y mae'n archwilio sut mae gwasanaethau gofal iechyd yn bodloni Safonau Iechyd a Gofal 2015.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cynorthwyo dysgu, datblygu a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Ciplun yw gwiriadau ansawdd o'r safonau gofal o fewn gwasanaethau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle'n gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol: atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn arbennig ynghylch staffio), a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn archwilio trefniadau sydd ar waith i ddiogelu staff a chleifion rhag COVID-19, gan ein galluogi i ddarparu cyngor gwella cyflym a chefnogol ar weithrediad diogel gwasanaethau yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein trefniadau sicrwydd a'n dull arolygu [yma](#).

Gwnaethom siarad â rheolwr cyffredinol y gyfarwyddiaeth, y pennaeth nyrsio, y fetron a'r arweinydd clinigol ar 21 Chwefror a staff ward band 6 a band 7 ar 23 Chwefror 2022 a roddodd wybodaeth a thystiolaeth i ni am eu gwasanaeth. Gwnaethom ddefnyddio'r llwybrau ymholi allweddol canlynol:

- Sut ydych chi'n sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel i staff, cleifion ac ymwelwyr a'i fod yn cynnal urddas y cleifion ac yn rhoi cysur iddynt?
- Sut mae'r trefniadau rheoli a llywodraethu staff yn sicrhau bod yr adran yn gallu darparu gofal sy'n ddiogel ac yn effeithiol?
- Sut ydych chi'n sicrhau bod llif y cleifion drwy'r adran yn effeithiol a bod anghenion newidiol y cleifion yn cael eu hasesu i nodi salwch aciwt a chadw cleifion yn ddiogel?
- Sut ydych chi'n sicrhau bod trefniadau rhyddhau cleifion yn ddiogel, gan gynnwys y cleifion hynny sy'n dod o'r grwpiau sy'n agored i niwed?

Oherwydd y wybodaeth a gawsom cyn y gwiriad ansawdd, gwnaethom waith ychwanegol ynghylch llif y cleifion, rhyddhau'r cleifion, dogfennaeth nyrsys a chofnodion cleifion.

Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19 a sut mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal i'w gadw mor ddiogel â phosib i gleifion, staff ac ymwelwyr.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Asesiad risg iechyd a diogelwch
- Canlyniadau archwiliad diweddaraf ynglŷn â chwympiadau
- Canlyniadau archwiliad diweddaraf ynglŷn â niwed pwyso a niwed i feinwe

Gwnaethom hefyd holi cynrychiolwyr y gwasanaeth am y newidiadau y maent wedi'u gwneud i sicrhau bod cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth yn unol â'u hanghenion.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Gwnaethom adolygu copïau o asesiad risg iechyd a diogelwch yr adran, canlyniadau archwiliadau ynglŷn â chwympiadau a chanlyniadau archwiliad diweddaraf ynglŷn â niwed pwyso a niwed i feinwe. Roedd pob un yn gyflawn ac yn gyfredol.

Dyweddodd y staff wrthym am y trefniadau sydd ar waith i sicrhau na all pobl heb awdurdod fynd i mewn i'r adran ac na all cleifion â namau gwybyddol ei gadael heb i neb sylwi. Ceir mynediad i'r ward naill ai drwy ddefnyddio cerdyn sweipio, neu drwy ganiatâd staff y dderbynfa. Yn ardal aros yr adran achosion brys, mae'n rhaid i gleifion fynd at y staff i gael caniatâd i adael y ward a dywedwyd wrthym fod perthnasau yn gallu aros gydag unrhyw gleifion sydd â namau gwybyddol neu anawsterau dysgu. Dywedodd y staff wrthym hefyd fod yna broses tynnu sylw ar y system Symphony¹, lle gall cleifion o'r fath gael eu hamlygu a'u monitro drwy'r system. Fe'n hysbyswyd bod y Groes Goch hefyd wedi'i lleoli yn yr adran ac, os bydd capasiti'n caniatáu hynny, byddant hwy neu gynorthwyydd gofal iechyd (HCA) yn helpu i gefnogi'r cleifion hyn os byddant yn mynychu'r adran heb gwmni.

Dyweddodd y staff wrthym, os oes angen i glaf sy'n agored i niwed aros i gael ei gasglu ar ôl iddo gael ei ryddhau, y gellir ei hebrwng i'r lolfa ryddhau i aros am ei berthynas neu ofalwr. Fodd bynnag, mae'r lolfa ond ar agor rhwng 9am a 5pm ar hyn o bryd. Mae'r staff wrthi'n ymestyn hyn i 8pm ac mae hefyd ardaloedd eraill yn yr adran lle gall staff fynd â'r cleifion hyn i sicrhau eu bod yn ddiogel ac yn cael eu harsylwi wrth aros i gael eu rhyddhau.

Dywedwyd wrthym fod gan yr adran broses ymateb cyflym ar waith ar gyfer unrhyw gleifion coll, sy'n sbarduno'r staff i chwilio bob ardal leol. Mae gan yr adran dîm diogelwch hefyd sy'n gweithio'n dda gyda'r staff i helpu i sicrhau diogelwch cleifion. Dywedodd y staff wrthym hefyd fod system ar waith, lle mae'r tair adran achosion brys ar draws y bwrdd iechyd yn

¹ Symphony - system glinigol ar gyfer gofal brys, cefnogi'r gwaith o reoli cleifion, tracio a llif gwaith clinigol.

cyfarfod bob pythefnos i rannu gwybodaeth ar draws y safleoedd. Dywedodd y staff eu bod yn awyddus i ddysgu oddi wrth ei gilydd ac osgoi camgymeriadau rhag cael eu hailadrodd mewn adrannau brys eraill. Mae unrhyw wersi a ddysgir yn cael eu hanfon dros yr e-bost at yr holl staff a'u cynnwys yn y nodiadau trosglwyddo.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Dywedodd y staff wrthym fod nifer cyfyngedig o gyfleusterau toiled i gleifion yn yr adran, gydag un yn yr adran anafiadau difrifol ar gyfer deg claf ac un toiled yn unig ar gyfer pob un o'r cleifion yn yr ardal goch². Os yw claf yn yr ardal ddadebru, rhaid iddo naill ai ddefnyddio comôd, neu gael ei gludo mewn cadair olwyn i ardal arall. Dywedodd y staff hefyd nad oes unrhyw gyfleusterau ymolchi i gleifion yn yr adran. Gallant gynnig powlen o ddŵr a thywel er mwyn i'r cleifion allu ymolchi, ond nid oes cawodydd.

Dylai'r Bwrdd lechyd archwilio ffyrdd posibl o naill ai cynyddu nifer y toiledau yn yr adran, neu wella mynediad i'r toiledau ar gyfer pob rhan o'r adran achosion brys.

Atal a rheoli'r haint

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19, a pha mor dda y mae'n rheoli'r risg o heintiau, er mwyn helpu i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Polisiâu rheoli heintiau cyffredinol a pholisiâu penodol ynghylch COVID-19

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Dywedodd staff wrthym am y newidiadau a roddwyd ar waith yn yr adran o ganlyniad i COVID-19. Rhannwyd yr adran yn ddwy, gydag un adran ar gyfer cleifion sydd wedi cael canlyniad positif o COVID-19 neu yr amheuir bod COVID-19 ganddynt (yr ardal goch) a'r llall ar gyfer cleifion â chanlyniad negyddol (yr ardal werdd). Dywedwyd wrthym fod yr ardal rhwng y ddau ddrws i fynd i mewn i'r adran achosion brys yn cael ei defnyddio gan staff i ofyn cwestiynau penodol am COVID-19. Wedyn, caiff y cleifion eu cyfeirio naill ai at yr adran werdd neu'r adran goch, yn dibynnu ar yr wybodaeth a roddir. Os oes angen i'r claf fynd i'r ardal goch, gofynnir iddo naill ai gerdded i fynedfa arall, neu bydd nyrs yn ei hebrwng os yw'n unigolyn sy'n agored i niwed neu'n rhy sâl. Dywedwyd wrthym nad oes ardal aros yn yr adran goch a bod cleifion naill ai'n cael eu cyfeirio ar unwaith i giwbiclau neu at gadeiriau a oruchwylir gan nyrsys. Mae gan yr adran achosion brys swît ynysu ar wahân hefyd.

² Mae ardal goch yn disgrifio'r man yn yr adran lle mae cleifion sy'n cyrraedd yr adran achosion brys yn cael eu hebrwng os ydynt wedi cael canlyniad positif o COVID-19 neu os oes amheuaeth ohono.

Dywedwyd wrthym fod cleifion sy'n agored i niwed yn glinigol yn cael eu nodi yn y dderbynfa a'u nodi ar y system Symphony er mwyn i'r staff eu canfod. Yn ôl y staff, mae cleifion o'r fath yn rhagweithiol iawn wrth sicrhau eu bod yn cael eu hadnabod ac mae'r adran yn gweithio gyda'r adran oncoleg ar hyn o bryd ar lwybr i sicrhau bod y cleifion hyn yn cael eu rheoli'n ddiogel.

Er bod y staff wedi ceisio cadw pellter cymdeithasol pryd bynnag y bo'n bosibl, dywedasant wrthym fod hyn yn aml yn anodd ar adegau prysur. Mewn cyfnodau prysur, mae'r staff yn gallu symud cleifion i rannau eraill o'r adran os bydd yr ystafell aros yn orlawn. Mae gan yr ardaloedd hyn gyfleusterau ymolchi dwylo ac ardaloedd penodol ar gyfer gwisgo a diosg cyfarpar.

Dywedodd staff fod pob claf yn cael prawf swab ar gyfer COVID-19 cyn cael ei dderbyn a bod gan bob aelod o staff fynediad at y peiriant profi sy'n rhoi canlyniadau'n gyflym, a'u bod wedi'u hyfforddi i'w ddefnyddio. Cawsom wybod am gynllun wrth gefn sydd ar waith, lle mae cleifion yn cael eu cludo mewn tacsï i ysbyty cyfagos i gael eu profi os bydd y peiriant yn torri. Dywedodd staff wrthym fod hyn wedi gweithio'n dda.

Cawsom hefyd wybodaeth am y systemau sydd ar waith i sicrhau bod mesurau atal a rheoli heintiau (IPC) yn effeithiol ac yn gyfredol yn unol â gofynion COVID-19. Dywedodd staff wrthym fod grwpiau cyfryngau cymdeithasol caeëdig ganddynt lle mae unrhyw ddiweddariadau a chanllawiau newydd yn cael eu rhannu. Mae unrhyw ddiweddariadau hefyd yn cael eu cofnodi ar gofnod y 'nyrs â gofal' a'r ffurflenni trosglwyddo.

Gwnaethom adolygu cofnodion hyfforddiant gorfodol staff a oedd yn dangos cyfraddau cydymffurfiaeth uchel ar draws yr adran. Dywedodd staff wrthym fod hyfforddiant dwys COVID-19 wedi'i gynnal ar ddechrau'r pandemig a bod disgwyl i staff gwblhau'r holl hyfforddiant gorfodol ar y system hyfforddi ar-lein. Mae'r holl staff wedi'u hyfforddi mewn gwisgo a diosg cyfarpar, ac yn cael prawf gosod ar gyfer eu masgiau. Yn ogystal â hyn, mae'r tîm ymyrraeth aciwt wedi datblygu hyfforddiant uwch mewn meysydd fel golchi gwelyau, hyfforddiant ar hanfodion atal a rheoli heintiau, a sut i ystyried atal a rheoli heintiau mewn perthynas â risgiau anadlol a mesurau lliniaru.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, gwnaeth AGIC holi cynrychiolwyr y gwasanaeth ynghylch sut, yng ngoleuni effaith COVID-19, maent wedi addasu eu gwasanaeth. Gwnaethom archwilio a yw trefniadau rheoli yn sicrhau bod nifer digonol o staff sydd wedi cael eu hyfforddi'n briodol ar y ward i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

-
- Swyddi gwag presennol staff (a restrir yn ôl band)
 - Salwch staff presennol (a restrir yn ôl band)
 - Canran y cyfraddau cwblhau cyfredol ar gyfer hyfforddiant gorfodol
 - Canran y cyfraddau cwblhau cyfredol ar gyfer adolygiadau arfarnu perfformiad a datblygiad (a restrir yn ôl band)
 - Polisi uwchgyfeirio
 - Y polisi/proses gorfforaethol i sicrhau parodrwydd ar gyfer argyfwng pandemig yn y dyfodol
 - Cofnodion hyfforddiant gorfodol staff
 - Copi o adroddiad adolygu sy'n cael ei gynnal gan Nyrsys atal a rheoli heintiau allanol
 - Polisi Ymateb Cyflym
 - Copi o'r archwiliad diweddaraf ynghylch sepsis
 - Y pum ffurflen rhyddhau anffafriol ddiwethaf sy'n ymwneud â'r adran achosion brys
 - Deg set o gofnodion cleifion - pump ar gyfer cleifion dros 70 oed ac unrhyw bum derbyniad pellach
 - Nifer unrhyw ddigwyddiadau yr adroddwyd amdanynt yn ymwneud ag oedi wrth drosglwyddo cleifion sy'n benodol i amser a chrynodeb ohonynt - h.y. fasgwlaidd, cardiaidd, a llinell sy'n crynhoi'r digwyddiadau - un copi o gerdyn yr adran achosion brys ar gyfer un o'r cleifion hyn
 - Nifer unrhyw ddigwyddiadau yr adroddwyd amdanynt yn ymwneud â delweddu cleifion sy'n benodol i amser a chrynodeb ohonynt - h.y. fasgwlaidd, cardiaidd, a llinell sy'n crynhoi'r digwyddiadau - un copi o gerdyn yr adran achosion brys ar gyfer un o'r cleifion hyn
 - Unrhyw ddigwyddiadau difrifol yn ymwneud â'r ddau bwnc uchod
 - Polisi rhyddhau

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Gwelsom dystiolaeth o restr gyflawn o swyddi gwag a rhestr o'r holl salwch staff presennol. Cawsom hefyd gopi o bolisi/proses gorfforaethol gyfredol i sicrhau parodrwydd ar gyfer argyfwng pandemig yn y dyfodol.

Pan ofynnwyd am niferoedd staffio yn yr adran, dywedodd staff wrthym eu bod wrthi'n recriwtio staff ar wahanol raddau i lenwi'r swyddi gwag ar hyn o bryd. Dywedwyd wrthym fod gweinyddwr staffio penodol ar gyfer yr adran achosion brys a fydd yn tynnu sylw at unrhyw

bryderon neu fylchau o ran lefelau staffio.

Dywedodd staff wrthym hefyd am y defnydd o weithlu meddygol yn yr adran. Mae ganddynt rai meddygon ar gontractau dim oriau a fydd yn llenwi rhai o'r bylchau staffio a bydd meddygon ymgynghorol hefyd yn cyflenwi staff iau os oes angen. Rhoddwyd enghraifft i ni o feddygon yn helpu gyda brysbennu ar yr ambiwlansys, yn ogystal ag arsylwadau cleifion yn ystod cyfnodau prysur. Mae gan yr adran chwiliwr cynnydd dynodedig hefyd, y mae ei rôl yn cynnwys monitro ac olrhain canlyniadau swabiau COVID-19 cleifion, a chynorthwydd gofal iechyd penodol sy'n gweithio ym maes brysbennu, i helpu'r nyrsys cofrestredig.

Dywedodd staff wrthym fod y pandemig wedi creu problemau pellach gyda staffio, gyda llawer o staff yn gorfod hunanynysu ar wahanol gyfnodau. Defnyddir staff asiantaeth a staff cyflenwi rheolaidd sydd wedi cael eu hyfforddi i weithio yn yr adran hon ac i ddefnyddio'r system Symphony ar gyfer pob sifft wag.

Dywedwyd wrthym fod y staff yn gallu manteisio ar hyfforddiant mewnol a ddarperir gan uwch aelodau o staff, yn ogystal â'r hyfforddiant sydd ar gael drwy'r Cofnod Staff Electronig. Mae yna slotiau wythnosol ar gyfer hyfforddiant penodol i feddygon a dywedodd y staff wrthym fod hyn yn amser gwarchodedig ac nad yw byth yn cael ei ganslo. Mae nyrsys sy'n cwblhau hyfforddiant cartref ar-lein yn cael eu talu am eu hamser ac yn cael eu hannog hefyd i ymgymryd â hyfforddiant ychwanegol fel y cwrs Uwch Ymarferydd Nyrsio.

Fel rhan o'n gwiriad ansawdd, fe wnaethom hefyd ofyn nifer o gwestiynau i staff ynghylch llif cleifion. Dywedwyd wrthym fod pob derbyniad yn cael ei gofnodi ar y system Symphony, sy'n fyw ac sy'n gallu olrhain taith claf drwy'r ysbyty. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn anelu at frysennu pob claf o fewn deg munud, fodd bynnag nid yw hyn bob amser yn bosibl, yn enwedig ar adegau prysur. Y nyrs â gofal sy'n gyfrifol am reoli brysbennu, trwy fonitro sgrin y system Symphony a dogfennu materion neu wybodaeth allweddol yn y cofnod gwybodaeth.

Gofynnwyd i'r staff am y broses o nodi a rheoli unrhyw gleifion sy'n agored i niwed yn yr adran, gan gynnwys plant, cleifion ag anableddau dysgu neu broblemau iechyd meddwl, cleifion dementia, cleifion gofal lliniarol a chleifion sy'n gaeth i sylweddau neu alcohol. Dywedwyd wrthym fod gan yr adran nyrsys sy'n arbenigo ym mhob un o'r grwpiau hyn. Felly, byddent yn defnyddio'r unigolyn perthnasol pe bai rhywun yn cyrraedd ag anghenion cymhleth.

Os bydd cleifion yn aros am gyfnodau hir o amser naill ai yn yr ardal aros neu'r brif adran, dywedodd y staff eu bod yn cael cymorth rheolaidd gan dîm y Groes Goch a bod y troli bwyd hefyd yn mynd o amgylch y ddwy ardal deirgwaith y dydd i ddarparu bwyd a diod i gleifion. Er nad oes cyfleusterau cawod nac ymolchi i gleifion, bydd staff yn darparu powlen o ddŵr a thywel i gleifion. Bydd staff hefyd yn sicrhau bod gwelyau a matresi lleddfpu pwysau yn cael eu darparu yn ôl yr angen.

Gwnaethom ofyn i staff am y broses o nodi a rheoli sepsis. Dywedodd y staff wrthym fod archwiliadau sepsis yn cael eu cynnal yn rheolaidd a bod yna hefyd arbenigwr penodedig sy'n

addysgu staff yr adran am sepsis. Dywedodd staff fod y system Symphony wedi ei gwneud hi'n llawer haws adnabod a rheoli cleifion o'r fath ac y bydd y system Symphony yn cael ei chyflwyno ar draws y bwrdd iechyd cyfan yn ystod y mis nesaf, gan greu dangosfwrdd sepsis byw ar draws y tair adran achosion brys.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Ar ôl adolygu'r polisi rhyddhau, roedd yn amlwg nad oedd yn ddigon penodol i sicrhau bod cleifion yn cael eu rhyddhau'n ddiogel o'r adran achosion brys. Cadarnhaodd y staff hefyd nad oes proses ryddhau fewnol na rhestr wirio ar waith ar hyn o bryd i helpu'r staff i ryddhau cleifion yn ddiogel. Mae AGIC yn ei gwneud yn ofynnol i'r bwrdd iechyd fod â phroses ryddhau benodol ar gyfer yr adran achosion brys a sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'r broses hon, a'u bod wedi'u hyfforddi yn y broses, er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael eu rhyddhau'n ddiogel o'r adran hon. Codwyd y gwelliant hwn fel mater a oedd angen sicrwydd ar unwaith gan y bwrdd iechyd.

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaeth y staff godi pryderon hefyd ynghylch oedi wrth gael mynediad at gludiant ar gyfer cleifion brys ac sy'n benodol i amser i gael mynediad at ofal trydyddol ac arbenigol. Roedd y materion a godwyd yn ymwneud ag oedi sylweddol yn ystod cyfnodau o fewn a thu allan i oriau o ran cael mynediad at gludiant ambiwlans mewn da bryd. Ategwyd hyn gan y dystiolaeth y gofynnwyd amdani ac a adolygwyd gennym mewn perthynas ag adroddiadau digwyddiadau a chofnodion cysylltiedig. Rhaid i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau i'w cymryd i leihau'r oedi wrth drosglwyddo cleifion â chyflyrau critigol sy'n benodol i amser ar gyfer gofal trydyddol ac arbenigol. Codwyd y gwelliant hwn fel mater a oedd angen sicrwydd ar unwaith gan y bwrdd iechyd.

Wrth adolygu cofnodion cleifion, daeth yn amlwg bod y raddfa boen yn anghyson ac, felly, bod y camau gweithredol dilynol hefyd yn anghyson. Ym mhob cofnod a adolygwyd lle roedd poen naill ai'n brif gyflwyniad neu'n gyflwyniad eilaidd, nid oedd y graddfeydd poen yn cael eu cofnodi'n gyson neu heb eu gwneud o gwbl. Hefyd, ym mhob achos, nid oedd poen y claf yn cael ei adolygu a'i ailasesu mewn da bryd. Mewn un achos, rhyddhawyd claf â graddfa poen parhaus o 7. Wedyn, daethant yn ôl yn ddifrifol wael bedair awr yn ddiweddarach gan ddiodef ataliad ar y galon ac yn anffodus, bu farw. Roedd achos ei farwolaeth yn gysylltiedig â'i gŵyn am boen yn yr abdomen. Mae AGIC yn gofyn am fanylion y camau i'w cymryd i sicrhau graddfa poen cyson a rheoli poen yn ddiogel ac yn effeithiol i'r holl gleifion. Codwyd y gwelliant hwn fel mater a oedd angen sicrwydd ar unwaith gan y lleoliad.

Gwelsom hefyd dystiolaeth o anghysondebau wrth gofnodi sgoriau ac arsylwadau ffisiolegol y Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol NEWS³. Mewn llawer o'r achosion a adolygwyd gennym, ni chynhaliwyd arsylwadau mor aml a fyddai'n caniatáu ar gyfer adnabod dirywiad yn gynnar. Mewn rhai o'r achosion hyn, roedd yr arsylwadau wedi gwaethygu wrth eu hailwirio ar ôl cyfnod

³ Mae'r offeryn Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol y GIG (NEWS) yn system sgorio a ddefnyddir i rybuddio clinigwyr am arwyddion o ddirywiad mewn iechyd claf sy'n oedolyn.

sylweddol o amser. Rydym yn ei gwneud yn ofynnol i staff roi manylion i ni am y camau i'w cymryd i sicrhau bod y sgoriau ac arsylwadau ffisiolegol y Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol yn cael eu cofnodi'n gyson ar gyfer yr holl gleifion. Codwyd y gwelliant hwn fel mater a oedd angen sicrwydd ar unwaith gan y lleoliad.

Yn ystod ein trafodaethau gyda staff, codwyd hefyd nad yw'r gwaith bresennol o oruchwylio'r ardal aros yn ddigonol ac yn aml nid oes digon o staff i fonitro cleifion a rhoi cymorth iddynt yma yn gyson. Mae ffrydiau teledu cylch cyfyng byw o'r ystafell aros yn cael eu dangos yn swyddfa'r nyrs â gofal, ond nid yw hyn yn cael ei fonitro'n gyson. Rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r bwrdd iechyd benderfynu ar atebion ar gyfer hyn ac argymhell penodi aelod o staff i oruchwylio'r ardal aros yn ystod bob sifft.

Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi meysydd i'w gwella yn ystod ein gwiriad ansawdd a lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r rhain, darperir cynllun gwella yn rhoi manylion ar ddiwedd y crynodeb gwirio ansawdd hwn.

Lle mae angen cynllun gwella, dylai wneud y canlynol:

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y meysydd i'w gwella a nodwyd yn cael sylw digonol
- Sicrhau bod tystiolaeth ofynnol yn erbyn camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r meysydd i'w gwella yn systemig ar draws meysydd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Os na nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod y gwiriad ansawdd hwn, ni fydd angen cynllun gwella, a dim ond yr adroddiad cryno ar y gwiriad ansawdd fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth:	Ysbyty Gwynedd
Ardal:	Yr Adran Achosion Brys
Dyddiad yr arolygiad:	21 - 25 Chwefror 2022

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Llywodraethu				
Mae AGIC yn ei gwneud yn ofynnol i'r bwrdd iechyd gael proses ryddhau benodol ar gyfer yr adran achosion brys a sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'r broses hon, a'u bod wedi'u hyfforddi yn y broses, er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael eu rhyddhau'n ddiogel o'r adran hon.	Safon 5.1 Mynediad amserol	Byddwn yn gofyn, drwy'r grŵp o ddefnyddwyr y system Symphony, i wneud y rhestr wirio rhyddhau yn orfodol ar gyfer yr HOLL gleifion ar draws Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (gan fod hyn ond yn orfodol ar hyn o bryd ar gyfer y cleifion hynny lle mae penderfyniad i dderbyn wedi'i wneud) Mae arweinwyr yr adran achosion brys wedi cytuno i gynnwys meysydd ychwanegol i'r rhestr wirio orfodol gan gynnwys ysgogiadau diogelu, pryderon a galluedd meddyliol. Roedd y defnydd o restr wirio'r adran achosion brys ar gyfer yr holl gleifion wedi'i gyfleu a'i amlygu yn y briffiau diogelwch dyddiol a'i rannu gyda thîm yr adran achosion brys. Ar gyfer trefniadau dros dro, hyd	Nathan Rogers – Rheolwr Arweiniol Gofal Brys Tîm Arwain yr Adran Achosion Brys	Diwedd Mawrth Diwedd Mawrth

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>nes y gellir gweithredu'r uchod, bydd y ddogfen ddiwygiedig isod yn cael ei defnyddio am y pythefnos nesaf i gefnogi'r broses ryddhau tra bod y system Symphony yn cael ei diwygio.</p> <p>Bydd atebolrwydd proffesiynol yn cael ei atgyfnerthu drwy Dîm Arwain yr adran achosion brys mewn perthynas â chyfrifoldeb ac atebolrwydd wrth ryddhau cleifion o'r adran achosion brys. Bydd hyn yn cael ei gwblhau yn y fforymau llywodraethu misol ar gyfer yr adran achosion brys a chyfarfodydd misol yr adrannau.</p> <p>Cynhelir archwiliadau yn fisol o ddefnydd o'r rhestr wirio gan y system Symphony ar gyfer pob safle, a bydd ar gael i Dîm Rheoli'r Ysbyty.</p> <p>Mae'r Polisi Rhyddhau ar draws Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gyfan yn cael ei adolygu a bydd yn cynnwys elfennau penodol ar gyfer rhyddhau cleifion o'r adran achosion brys. Bydd y drafft cyntaf ar gael ym mis Ebrill 2022.</p> <p>Mae Digwyddiadau a Dysgu o Ddigwyddiadau yn cael eu rhannu ar</p>	<p>Pennaeth Nyrsio a Dirprwy Bennaeth Nyrsio Ysbyty Gwynedd</p> <p>Triwriaeth gofal brys</p> <p>Pennaeth Nyrsio/Arweinydd Clinigol yr Adran Achosion Brys</p> <p>Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ardal - Gwasanaethau</p>	<p>Ar unwaith</p> <p>Diwedd Mawrth</p> <p>Diwedd Mawrth</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		draws y tri safle a bydd arferion da a syniadau ar gyfer gwelliannau'n cael eu rhannu drwy'r Bwrdd Gofal Brys	Gofal Canolraddol a Meddygaeth Arbenigol Gofal brys – Triwriaeth ar draws y Bwrdd Iechyd	29 Ebrill 2022 15 Mawrth 2022
Rhaid i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau i'w cymryd i leihau'r oedi wrth drosglwyddo cleifion â chyflyrau critigol sy'n benodol i amser ar gyfer gofal trydyddol ac arbenigol.	Safon 5.1 Mynediad amserol	Y broses bresennol yw bod galwadau i reolaeth yr Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru naill ai drwy lwybr 999 neu lwybr mynediad uniongyrchol. Mae pryderon yn cael eu huwchgyfeirio trwy alwadau gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gyda mewnbwn yr Uned Cyflawni Gweithredol. Datblygu meini prawf o fewn ysbytai ar gyfer creu trosglwyddiadau cyflym gyda mewnbwn yr Uned Cyflawni Gweithredol / Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru/ Uned Comisiynu Cydweithredol Genedlaethol. Mae hyn yn cael ei adolygu gydag Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru i nodi llinell	Rheolwr Cyffredinol y Gyfarwyddiaeth Gofal Brys - Ysbyty Gwynedd / Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru Uned Cyflawni Gweithredol / Uned Comisiynu Cydweithredol Genedlaethol Tîm gweithredol yr Uned Cyflawni	Mai 2022 Mai 2022 Mai 2022

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>glinigol uniongyrchol i gefnogi brysbennu cyflym ar y cyd â'r Uned Cyflawni Gweithredol.</p> <p>Bellach, mae gan y bwrdd iechyd wasanaeth trosglwyddo penodol (ACCTS) sy'n cefnogi trosglwyddo gofal critigol ond dim ond un cynorthwydd gweithredol sydd ganddo ar hyn o bryd ac mae'r tîm yn gyfyngedig iawn ac mae adolygiad o gapasiti gweithredol a galw yn cael ei gwblhau.</p>	<p>Gweithredol</p> <p>Arweinydd Clinigol ar gyfer y gwasanaeth trosglwyddo penodol</p>	
<p>Mae AGIC yn gofyn am fanylion y camau i'w cymryd i sicrhau graddfa poen cyson a rheoli poen yn ddiogel ac yn effeithiol i'r holl gleifion.</p>	<p>Safon 3.5 Cadw cofnodion</p>	<p>Archwiliadau Arsylwi Metron Wythnosol yn parhau</p> <p>Mae Archwiliadau Arweinwyr Sifftiau Dyddiol sy'n cynnwys cwestiynau penodol am raddfeydd poen a rheoli poen a'r camau a gymerwyd i'w lansio gydag adborth ar unwaith yn ystod sifftiau dydd a nos</p> <p>Asesiad o raddfa poen claf i'w wneud yn orfodol yn y system Symphony wrth gofnodi arsylwadau claf.</p> <p>Ochr yn ochr â chymwyseddau gweithleoedd lleol, bydd fframwaith RCN Cenedlaethol sy'n cynnwys rheoli poen ac arsylwadau yn cael ei lansio ar gyfer pob nyrs</p>	<p>Metronau/ Penaethiaid Nyrsio (3 safle)</p> <p>Metron/ Penaethiaid Nyrsio (3 safle)</p> <p>Rheolwyr Arweiniol Gofal Brys</p> <p>Penaethiaid Nyrsio (3 safle)</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>11 Mawrth 2022</p> <p>Mawrth 2022</p> <p>I'w lansio ym</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>gofrestredig Rhannu pryderon a nodwyd gyda thimau adrannau achosion brys, trwy friffiau diogelwch, cyfarfodydd adrannol a fforymau llywodraethu, gan dynnu sylw at bwysigrwydd rheoli poen yn briodol yn yr adran achosion brys</p>	Tîm Arwain yr Adran Achosion Brys	<p>mis Mawrth 2022</p> <p>Diwedd Mawrth 2022</p>
<p>Rhaid i staff roi manylion i AGIC am y camau i'w cymryd i sicrhau bod y sgoriau ac arsylwadau ffisiolegol y Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol yn cael eu cofnodi'n gyson ar gyfer yr holl gleifion.</p>	<p>Safon 3.5 Cadw cofnodion</p>	<p>Mae Archwiliadau Arsylwi Metron Wythnosol yn cael eu cwblhau</p> <p>Mae Archwiliadau Arweinwyr Sifftiau Dyddiol sy'n cynnwys cwestiynau penodol am arsylwadau cleifion ac uwchgyfeirio'r canlyniadau i'w lansio ar unwaith yn ystod sifftiau dydd a nos</p> <p>Mae cymwyseddau rheoli Nyrsys Brys RCN sy'n cynnwys rheoli poen ac arsylwadau yn cael eu lansio ar gyfer pob nyrs gofrestrredig</p> <p>Mae staff yn cael eu hatgoffa o bwysigrwydd adnabod arwyddion di-eiriau o boen a gwranddo ar gleifion a'u teuluoedd. Bydd hyn yn cael ei fonitro trwy'r archwiliadau arsylwi ac mae wedi'i gynnwys yng nghymwyseddau'r RCN</p>	<p>Penaethiaid Nyrsio (3 safle)</p> <p>Penaethiaid Nyrsio (3 safle)</p> <p>Penaethiaid Nyrsio (3 safle)</p> <p>Tîm Arwain yr Adran Achosion Brys</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>11 Mawrth 2022</p> <p>Lansiwyd ym mis Mawrth 2022</p> <p>Diwedd Mawrth 2022</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Rhannu pryderon a nodwyd gyda thimau adrannau achosion brys, trwy friffiau diogelwch, cyfarfodydd adrannol a fforymau llywodraethu, gan dynnu sylw at bwysigrwydd asesiad priodol a'r camau gweithredu a gymerwyd wrth asesu arsylwadau/cyflwyniadau cleifion		

Cynrychiolydd Ysbyty Gwynedd (Adran Achosion Brys):

Enw (llythrennau bras):

Geraint Farr

Rôl:

Rheolwr Cyffredinol y Gyfarwyddiaeth Gofal Brys

Dyddiad:

14 Mawrth 2022

Cynllun gwella

Lleoliad: Ysbyty Gwynedd

Ward/Adran/Gwasanaeth (dilëwch fel y bo'n berthnasol): Yr Adran Achosion Brys

Dyddiad y gweithgarwch: 21-25 Chwefror 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod y gwiriad ansawdd y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn eu cylch sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Sylwer, disgwylir i'r holl gamau gweithredu gael eu cwblhau o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r cynllun gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

Cyfeirnod	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1	Y staff i archwilio ffyrdd posibl o naill ai gynyddu nifer y toiledau yn yr adran, neu wella mynediad i'r toiledau ar gyfer pob rhan o'r adran achosion brys.	Safon 4.1 Gofal ag urddas	Yn sgil cyfyngiadau COVID-19 crëwyd dwy adran achosion brys gyda rheolau cadw pellter cymdeithasol. Mae cyfleusterau ar gyfer yr adrannau achosion brys coch a'r adran werdd ynghyd â mynediad at gyfleusterau toiled ychwanegol yn y caban cludadwy. Fel gwasanaeth, mae gan yr adran achosion brys 14 o gyfleusterau toiledau yn yr adran ar hyn o bryd ac mae'n bodloni'r safonau yn unol ag lechyd a Diogelwch ar gyfer adran achosion brys o'r maint.	Rheolwr Cyffredinol y Gyfarwyddiaeth Gofal Brys / Pennaeth Nyrsio Gofal Brys	Cwblhawyd

2	Mae'n ofynnol i staff wella'r gwaith o oruchwyllo'r ardal aros. Argymhellir penodi aelod o staff i'r rôl hon ar bob sifft.	Safon 3.1 Gofal diogel a chlinigol effeithiol	<p>Mae hyn wedi'i nodi drwy achos busnes yr adran achosion brys a'i ariannu; mae hyn er mwyn cael y gallu i gefnogi'r ystafell aros gyda chynorthwydd gofal iechyd a all godi pryderon gyda'r nyrs brysbennu. Oherwydd salwch byr rybudd a recriwtio parhaus, mae hon yn her barhaus; rydym yn defnyddio'r Groes Goch, tîm diogelwch sydd wedi'u lleoli yn yr ystafell aros, ynghyd â staff y dderbynfa a phan fydd gennym wyth aelod o staff neu fwy gallwn ddyrannu goruchwyliaeth.</p> <p>Mae gan y Groes Goch / y tîm diogelwch oruchwyliaeth yn yr ystyr y bydd unrhyw glaf sy'n codi pryder, h.y. yn teimlo'n sâl, yn edrych yn sâl, yn cael ei uwchgyfeirio at y nyrs â gofal / nyrs brysbennu i gefnogi a sicrhau bod y claf yn ddiogel. Mae'r Groes Goch yn cerdded o amgylch yr ystafell aros ar amseroedd penodol i weld a oes angen unrhyw gymorth ar gleifion, fel naill ai mynd i'r toiled neu, os yn bosibl, unrhyw beth i'w yfed ynghyd â sicrhau eu bod yn iawn.</p>	Rheolwr Cyffredinol y Gyfarwyddiaeth Gofal Brys / Pennaeth Nyrsio Gofal Brys	Cwblhawyd
---	--	--	---	---	-----------

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Enw: Geraint Farr

Dyddiad: 22/03/2022